



COMISIYNYDD  
HEDDLU A THROSEDDU  
DYFED-POWYS  
POLICE AND CRIME  
COMMISSIONER

## Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys

### Panel Craffu

### Ymarfer Hap Sampl

### Adolygiad o Ddigwyddiadau Trefn Gyhoeddus (Hyd-Rhag 2017)

### Gwarediadau y Tu Allan I'r Llys

### Adborth a Chanfyddiadau Aelodau Panel

Ionawr2018



## Cynnwys

|     |   |    |
|-----|---|----|
| 1.0 | Trosolwg  | 2  |
| 2.0 | Cefndir, Diben a Methodoleg   | 2  |
| 2.1 | Data cefndir  | 2  |
| 3.0 | Cymeradwyaeth Cadeirydd y Panel                                       | 4  |
| 4.0 | Camau gweithredu a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod Panel diwethaf        | 5  |
| 5.1 | Arsylwadau  | 5  |
| 6.0 | Digwyddiadau Domestig ac Arfau Saethu - drwgdybiedigion sy'n oedolion | 7  |
| 6.1 | Arsylwadau  | 7  |
| 7.0 | Asesiadau'r panel hyd yn hyn  | 11 |
| 7.1 | Arfer da  | 14 |
| 7.2 | Meysydd ar gyfer gwella   | 14 |
| 8.0 | Ffocws y Panel ar gyfer y dyfodol                                     | 14 |

## 1.0 Trosolwg

Mewn cyfarfod o'r Panel Craffu ar Waredladau y Tu Allan i'r Llys a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2018, adolygodd yr Aelodau ddetholiad o achosion trefn gyhoeddus a gafodd eu trin drwy warediad y tu allan i'r llys.

Ystyrlodd y Panel gyfanswm o 16 achos. Roedd 7 yn ymwneud â drwgdyblediglon ifainc, ac roedd 9 yn ymwneud â drwgdyblediglon a oedd yn oedolion.

## 2.0 Cefndir, Diben a Methodoleg

Mae Aelodau Panel yn cytuno ar faes ffocws ar gyfer pob cyfarfod. Maen nhw'n derbyn ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod sydd wedi'u dewis ar hap gan y Cadeirydd Panel. Yna, mae'r Panel yn cwrdd i drafod pob achos, a dod i ganlyniad lle bo'n bosibl o ran priodoldeb y gwarediad. **Wrth benderfynu pa categori mae'r achos yn syrthio lldo, dylai'r panel ystyried y meini prawf canlynol:**

- barn ac adborth y dlodefydd a'r troseddwr;
- cydymffurfiaeth â pholisi'r heddlu;
- y rheswm dros y penderfyniad a'r canlyniad;
- yr effaith bosibl ar y gymuned;
- amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd; a'r
- dewisiadau amgen posibl a oedd ar gael o bosibl.


Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:

- Defnydd priodol ac yn gyson â'r polisi;
- Defnydd priodol gydag amheuan gan Aelodau panel;
- Defnydd amhriodol neu'n anghyson â'r polisi;
- Mae'r panel yn methu â dod i ganlyniad.


### 2.1 Data cefndir


Mae'r graff canlynol yn dangos y newid o ran defnydd Heddlu Dyfed-Powys o fathau gwahanol o warediadau y tu allan i'r llys dros amser.

### Math o warediad ieuenctid y tu allan i'r llys fel canran o bob canlyniad trosedd



### Math o warediad oedolyn y tu allan i'r llys fel canran o bob canlyniad trosedd





### 3.0 Cymeradwyaeth y Cadeirydd Panel

Yr wyf i Dick Powell SP (enw mewn llythrennau brad) yn medru cadarnhau fy mod i wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn llawn gynrychioli'r farn a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer hap samplo ar 30 Ionawr 2018.

Llofnod: 

Dyddiad: 28/4/18

#### 4.0 Camau gweithredu a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod Panel diwethaf

O ganlyniad i waith y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys, cymerwyd y camau gweithredu canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

- Mae hyfforddiant dalfeydd wedi'i ddiwygio er mwyn cynnwys ystyriaeth o droseddau yn erbyn staff ysbytal lle mae swyddogion wedi'u galw i gynorthwyo â chleifion treisgar.
- Anfonwyd canllawiau / llythyrau atgoffa i bob Goruchwylydd a Rhingyll Cronfa Dalfeydd mewn perthynas â'r defnydd priodol o fatrics difrifoldeb Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO).

#### 5.0 Ystyriaeth o Achosion Trefn Gyhoeddus – drwgdybiedigion ifainc

Ymdriniwyd â dau o'r achosion ieuenctid a ystyriwyd drwy Ddatrysiad Cymunedol Ieuenctid a thri achos drwy Warediad Adferol Ieuenctid, tra bod dau wedi derbyn Rhybudd Ieuenctid. Roedd asesiadau aelodau fel a ganlyn:

| Asesiad Aelodau       | Nifer yr achosion |
|-----------------------|-------------------|
| Priodol               | 4                 |
| Priodol gydag amheuon | 2                 |
| Amhriodol             | 1                 |

#### 5.1 Arsyllwadau

Rhoddir manylion am arsyllwadau aelodau panel ar bob achos isod.

##### Achos 1

Roedd yr aelodau'n teimlo y gallai Rhybudd Amodol fod wedi bod yn fwy priodol gan fod pryder ynghylch pa un ai a oedd yr unigolyn wedi dysgu o'r digwyddiad, gan nad oedd canlyniadau ar gyfer methu â chydymffurfio â'r amodau a oedd yn gysylltiedig â'r Rhybudd.

##### Asesiad y Panel: Defnydd priodol gydag amheuon

## **Achos 2**

Nododd yr aelodau fod y drwgdybiedig wedi derbyn 3 Datrysiad Cymunedol yn y 6 mis diwethaf. O'r herwydd, roedd y Panel yn teimlo nad oedd yr unigolyn yn cymryd cyfrifoldeb am ei weithredoedd ac nad oedd yn dysgu o'i gamgymeriadau yn y gorffennol. Teimlwyd y dylai canlyniad y digwyddiad blaenorol fod wedi'i ddwysáu i Rybudd Ieuenctid. Gan hynny, dylid fod wedi dwysáu'r digwyddiad hwn ymhellach.

**Asesiad y Panel: Defnydd priodol gydag amheuon**

## **Achos 3**

Roedd y Panel yn fodlon â'r drwgdybiedig yn derbyn Datrysiad Cymunedol Ieuenctid ar gyfer y drosedd a gofnodwyd, fodd bynnag, codwyd ymholiadau o ran pa un ai a oedd y drosedd wedi'i chofnodi'n briodol ai peidio.

**Asesiad y Panel: Priodol**

## **Achos 4**

Ni fynegodd yr Aelodau unrhyw bryderon ynglŷn â'r rheswm a gynhwysir yn y ffeil achos a chanlyniad dilynol y penderfyniad. Nid oedd gan y drwgdybiedig euogfarnau blaenorol, roedd ei bresenoldeb yn yr ysgol yn dda ac roedd yn ymddangos fel pe bai ganddo gefndir cryf a sefydlog am gefnogaeth ychwanegol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

## **Achos 5**

Gan nad oedd gan y drwgdybiedig euogfarnau blaenorol, ni fynegodd yr aelodau unrhyw bryderon ynglŷn â'r rheswm a gynhwysir yn y ffeil achos a chanlyniad dilynol y penderfyniad.

**Asesiad y Panel: Priodol**

## **Achos 6**

Darganfu bod y dyddiad geni ar gyfer y drwgdybiedig wedi'i gofnodi'n anghywir yn y cofnod ar gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu. Gan hynny, Datrysiad Cymunedol Oedolion ydoedd. Ni fynegodd yr aelodau unrhyw bryderon mewn perthynas â'r rheswm dros y penderfyniad am y canlyniad, ond gofynnwyd am i'r cofnod gael ei ddiweddarau â'r canlyniad perthnasol ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu.

**Asesiad y Panel: Priodol**



**Cam Gweithredu 1**

Diweddarau cofnod yr un a ddrwgdybir yn achos 6 ar gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu er mwyn adlewyrchu'r canlyniad yn gywir yn unol â'r ffurflen cyfaddefiad o euogrwydd.

**Achos 7**

Penderfynodd yr Aelodau Panel fod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol. Gan fod y digwyddiad yn ymwneud â chylllell, roedd yr aelodau'n teimlo y dylai'r troseddwr fod wedi derbyn Rhybudd o leiaf. Roedd y Panel yn teimlo bod hyn yn anghyson â chanlyniadau achosion tebyg.

**Aseslad y Panel: Amhriodol****6.0 Ystyriaeth o Achosion Trefn Gyhoeddus – drwgdybiedigion sy'n oedolion**

Adolygodd Aelodau Panel 9 achos oedolyn. Cafodd 2 eu trin drwy rybudd a 7 drwy ddatrysiaid cymunedol oedolyn. Roedd asesladau'r aelodau fel a ganlyn:

| <b>Asesiad yr aelodau</b>         | <b>Nifer yr achosion</b> |
|-----------------------------------|--------------------------|
| Priodol                           | 7                        |
| Priodol gydag amheuon             | 1                        |
| Amhriodol                         | 1                        |
| Panel Wedi Methu â Dod i Gasgliad | 0                        |

**6.1 Arsyllwadau**

Rhoddir manylion am arsyllwadau aelodau panel ar bob achos isod.

**Achos 8**

Ystyrlodd yr aelodau fod Rhybudd yn briodol yn yr achos hwn gan nad oedd gan y troseddwr unrhyw euogfarnau blaenorol, roedd wedi cyfaddef ei fod yn gyfrifol, ac roedd wedi rhoi ymddiheuriad llawn.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 9**

Roedd yr aelodau'n fodlon â'r rheswm a gynhwysir yn y ffeil achos a'r penderfyniad dilynol ynglŷn â'r canlyniad.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 10**

Cytunodd y Panel mai Datrysiad Cymunedol Oedolion oedd y math cywir o warediad, gan fod y dlodddefydd yn fodlon â'r canlyniad hwn ac roedd euogfarn flaenorol ddwy flynedd yn ôl.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 11**

Cytunodd yr Aelodau Panel fod Datrysiad Cymunedol Oedolion yn briodol ar gyfer yr achos hwn gan fod y drwgdybiedig wedi cyfaddef yn llawn i'r drosedd ac nid oedd ganddo hanes blaenorol o droseddu.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 12**

Cytunodd yr Aelodau Panel fod Datrysiad Cymunedol Oedolion yn briodol ar gyfer yr achos hwn gan y trafodwyd y canlyniad hwn gyda'r dlodddefydd, a gytunodd lddo.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 13**

Roedd yr aelodau panel yn teimlo y byddai Rhybudd wedi bod yn ganlyniad mwy priodol gan fod y drwgdybiedig wedi ymosod ar Swyddog Heddlu ac wedi gwrthwynebu cael ei arestio.

**Asesiad y Panel: Defnydd priodol gydag amheuon**

## **Achos 14**

Cytunwyd gan y Panel fod Datrysiaid Cymunedol Oedolion yn ganlyniad priodol gan fod y ddau barti a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad wedi cytuno i'r Datrysiaid Cymunedol Oedolion ac wedi'i lofnodi.

### **Asesiad y Panel: Priodol**

## **Achos15**

Ni fynegodd yr aelodau unrhyw bryderon ynghlŷn â'r rheswm a gynhwysir yn y ffeil achos a chanlyniad dilynol y penderfyniad. Ymdriniwyd â'r ddau barti a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad a chafwyd ymddiheuriad wyneb yn wyneb.

### **Asesiad y Panel: Priodol**

## **Achos 16**

Daeth yr Aelodau Panel i'r penderfyniad bod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol. Ystyriwyd y cyflwyniad llawn a pharodwydd y dioddefydd I gyhoeddi Datrysiaid Cymunedol Oedolion, fodd bynnag, roedd y Panel yn teimlo y byddai o leiaf Rhybudd yn fwy priodol gan nad oedd y troseddwr wedi dangos unrhyw edifeirwch, roedd wedi'i wahardd yn flaenorol o'r safle, gweithredoedd ymosodol y troseddwr tuag at yr Heddlu a'r ffaith bod y digwyddiad wedi digwydd ym mhresenoldeb plant ysgol.

### **Asesiad y Panel: Amhriodol**

## **Materion Eraill Sy'n Codi**

Cafwyd trafodaeth fanwl ynghylch adborth gan y Swyddfa Ieuenctid mewn perthynas â'r ffurflen gyfeirio (RJ1) a'r angen i'r Swyddfa Ieuenctid dderbyn y ffurflen hon gan yr Heddlu o fewn 24 awr. Codwyd y ffaith nad oedd yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chwblhau o fewn y ffurflen, yn arbennig yr adran euogfarnau blaenorol. Nodwyd ei bod hi'n ymddangos fel pe bai hyn yn broblem ar draws yr Heddlu.

Hefyd, codwyd pryder bod dioddefwyr yn cael eu diweddarau gan y Tîm Cyflawnder Ieuenctid a'r Heddlu, gan arwain at ddyblygu gwybodaeth ar gyfer y dioddefydd. Cytunodd y Panel y byddai'r mater hwn yn cael ei godi gyda'r Prif Arolygwyr Partneriaeth er mwyn ceisio datrysiaid.

### **Cam Gweithredu 2**

Mae dloddefwyr yn derbyn diweddariadau gan y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a'r Heddlu sy'n arwain at ddyblygu gwybodaeth a chyswllt ar gyfer y dioddefydd. Y mater i'w drafod ymysg y Prif Arolygwyr Partneriaeth er mwyn gweld pa un ai a oes modd dod o hyd i ddatrysiad.

Er y bu gostyngiad yn nifer y Rhybuddion, nododd yr Aelodau Panel nad oedd hi'n ymddangos fel pe bai hyn yn cael ei adlewyrchu yn nifer y digwyddiadau sy'n cael eu trin drwy'r Llys.

### **Cam Gweithredu 3**

Data i'w gynnwys o fewn adroddiadau Panel yn y dyfodol sy'n dangos sut y mae'r duedd droseddu orchuddiol yn ymwneud â'r canlyniadau Gwarediadau y Tu Allan I'r Llys.


Yn ogystal, trafodwyd bod pryder ynglŷn â'r amser a gymerir i fwydo adborth i mewn i hyfforddiant a gweithdrefnau.

### **Cam Gweithredu 4**


Yr Heddlu i ystyried sut y gellir bwydo canfyddiadau'r Panel yn ôl i mewn i hyfforddiant a gweithdrefnau'n gynt.

### 7.0 Aseidiadau'r Panel hyd yn hyn

Mae'r graff isod yn dangos aseiad y Panel o'r achosion a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf.




Ers mis Ebrill 2013, mae'r Panel wedi ystyried amrediad o warediadau, fel y dangosir yn y graff isod.




O'r 200 achos a gafodd eu harchwilio rhwng Ebrill 2013 ac Ionawr 2018<sup>1</sup>, aseswyd bod 53% yn briodol, 26% yn amhriodol, 19% yn briodol gydag amheuon, a methodd y panel â dod i gasgliad yn 2% o achosion.

Ar y cyfan, bu cynnydd yn nifer yr achosion y mae'r Panel wedi ystyried sydd â gwarediadau priodol. Gellir gweld y newid hwn dros amser yn y graff isod.




<sup>1</sup> Cwmpesir gweithgarwch y Panel o fis Tachwedd 2013 tan fis Ionawr 2018.

Mae'r graff isod yn dangos y crynodeb yn ôl math o drosedd fel canran o'r achosion a ystyriwyd rhwng Tachwedd 2013 ac Ionawr 2018.



Mae'r graff canlynol yn dangos gwir nifer yr achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y Panel yn eu cyfarfodydd rhwng Tachwedd 2013 a Ionawr 2018.



### 7.1 Arfer da

Mae'r enghraifft ganlynol o arfer da wedi'i nodi o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:

- Yn gyffredinol, roedd y Panel yn fodlon â'r rhesymau a nodwyd o fewn y rhan fwyaf o ffeiliau achos, a arweiniodd at y canlyniad gwaredu mwyaf priodol.
- Roedd hi'n amlwg mewn nifer o achosion bod dymuniadau'r dioddefydd wedi'u hystyried wrth benderfynu ar y canlyniad ar gyfer y troseddwr a'r achos.



## 7.2 Meysydd ar gyfer gwella

Nodwyd un maes penodol ar gyfer gwella o ganlyniad I walth y Panel y chwarter hwn:

- Dylai fod mwy o gyfathrebu rhwng y Tîmoedd Cyflawnder Ieuenctid a Heddlu Dyfed-Powys er mwyn sicrhau bod ffurfienni cyfeirio'n cael eu derbyn yn amserol a chywir a bod cytundeb ynghylch diweddarau dioddefwyr yn effeithiol yn dilyn penderfyniadau'r Swyddfa Ieuenctid.

## 8.0 Ffocws y Panel ar gyfer y Dyfodol

Ar argymhelliad SCHTh, cytunodd yr Aelodau i ystyried gwarediadau y tu allan i'r llys mewn perthynas â digwyddiadau Difrod Troseddol yng nghyfarfod nesaf y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys.

